Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 17eg Medi 2026 am 7.30 pm yn Hen Ysgol Cilcennin

Yn bresennol: y Cynghorydd Nigel Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Michelle Davies, Robert Davies, Gary Evans, Helen Evans, Eirlys James-Evans, Arwel Jones Tina Jones ac Iwan Thomas.
Clerc: Denfer Morgan

366 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorydd Alwen Thomas am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

367 Cofnodion y Cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 16eg Gorffennaf 2026

PENDERFYNWYD cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 16eg Gorffennaf 2026.

368 Materion Cyllidol

PENDERFYNWYD talu'r canlynol;

Archwilio Cymru (Ffi Archwiliad 2024-25) - £210.47

Cyflog y Clerc (Gorff-Awst-Medi):
Denfer Morgan - £387.94
CThEF (TWE) - £96.98

369 Mynwent Eglwys y Drindod Sanctaidd, Cilcennin

Dywedodd y Clerc nad oedd wedi ganddo wybodaeth pellach ac y byddai'n gofyn I gyfreithwyr y Cyngor ofyn am ddiweddariad cyn y cyfarfos nesaf.

370 Adroddiad Blynyddol 2025-26

PENDERFYNWYD cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2025-26 fel a gyflwynwyd.

371 Arolwg o'r Trefniadau Cymunedol Ceredigion

Nodwyd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno adolygu Penderfyniadau Terfynol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar gyfer Ceredigion.

372 Cynllun Gwasanaethau Clinigol Bwrdd Iechyd Hywel Dda – Gwasanaethau Strôc

Nodwyd yr Adroddiad Drafft ar Gynllun Gwasanaethau Clinigol Bwrdd Iechyd Hywel Dda – Gwasanaethau Strôc yn dilyn yr ymgynghoriad.

373 Unrhyw Fater Arall

Gofynnwyd i'r Clerc ddwyn sylw'r Cyngor Sir at y canlynol:

- eu hatgoffa o'r angen i ailosod yr arwydd 'Ildio' ar y gyffordd ger Tŷ Mawr; a'r angen i docio'r goeden ger Brodawel, Ciliau Aeron
- gofyn am arwydd 'ffordd yn culhau' cyn y Bont Newydd, Ciliau Aeron a llenwi tyllau gerllaw.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:15pm